
Peirianeg yn y gwaith T198

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r cwrs

Mae peirianwyr yn datblygu sgiliau ymarferol a phroffesiynol yn y gwaith mewn ffyrdd nad ydynt bob amser yn cael eu cydnabod yn ffurfiol. Mae'r cwrs hwn yn galluogi myfyrwyr sydd mewn swydd sy'n gysylltiedig â pheirianeg ar hyn o bryd i ennill credyd academaidd am ddysgu yn y gwaith drwy gwblhau gweithgareddau go iawn yn y gwaith, a ddyluniwyd er mwyn helpu i wella eu datblygiad proffesiynol a'u perfformiad yn y gwaith. Bydd angen rhywun arnynt heblaw eu tiwtor yn y gweithle (fel arfer eu rheolwr llinell) i ddilysu, ond nid asesu, rhywfaint o'u gwaith cwrs. Mae'r cwrs yn elfen orfodol o'r Radd Sylfaen mewn Ffabrigo Deunyddiau a Pheirianeg (G18) ac mae ar gael i fyfyrwyr sydd wedi cwblhau Diploma TWI (Sefydliad Weldio) ar lefel Technolegydd.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- diddordeb amlwg mewn dysgu yn y gweithle
- dealltwriaeth o raddau sylfaen
- profiad o weithio ar brosiectau peirianeg ar raddfa fawr
- y gallu i gefnogi ac arwain myfyrwyr o ran dogfennu eu gwaith a'u profiad proffesiynol.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad o fentora yn y gweithle
- ymwybyddiaeth o UK-SPEC
- profiad o raddau sylfaen
- diddordeb mewn materion ansawdd a gwelliant parhaus.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus: 30

Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	5
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	7

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano a byddwn yn cysylltu â chi ar wahân amdano os yw'n berthnasol.